**ATODIAD 3 – FFUG GAIS**

| **Cyfeirnod Unigryw** | |
|---|---|

# Rhan II Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio

# 2000

# Awdurdodi Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod Cyhoeddus**<br><br>*(yn cynnwys cyfeiriad llawn)* | Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin, SA31 1JP | | |
| | | | |
| **Enw'r Ymgeisydd** | A N Other | **Uned/Cangen / Is-adran** | Tîm Ymchwilio i Dwyll |
| **Cyfeiriad Llawn** | Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin<br><br>SA31 1JP | | |
| **Manylion Cyswllt** | Ffôn : 01267 224xxx<br><br>Ebost: ANOther@sirgar.gov.uk | | |
| **Enw'r Ymchwiliad / Gweithgarwch (os yn berthnasol)** | Mr Davies | | |
| **Swyddog Ymchwilio (os yw'n berson gwahanol i'r ymgeisydd)** | | | |

## ATODIAD 3 – FFUG GAIS

| Cyfeirnod Unigryw | |
|---|---|

| MANYLION Y CAIS |
|---|
| **1 Rhowch safle neu swydd y swyddog awdurdodi yn unol â Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 Rhif 521.** [1] |
| |
| **2 Disgrifiwch bwrpas y weithred neu'r ymchwiliad penodol.** |
| Pwrpas yr ymchwiliad yw casglu tystiolaeth o droseddau honedig o dan adran 111 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 a'r Ddeddf Twyll y credir y mae Mr Davies yn eu cyflawni. Yn benodol felly, pwrpas y gweithgarwch gwyliadwriaeth arfaethedig yw casglu tystiolaeth i ddangos fod Mr Davies yn byw gyda Mrs Jones yn rhif 82 Stryd Fawr. |
| **3 Disgrifiwch yn fanwl y weithred wyliadwriaeth i'w hawdurdodi a'i hyd disgwyliedig, gan gynnwys unrhyw adeiladau, cerbydau neu offer (e.e. camera, ysbienddrych, recordydd) allai gael eu defnyddio.** |
| Bydd y wyliadwriaeth yn digwydd fel a ganlyn;<br>1. Arsylwi uniongyrchol gan rhwng 1 a 4 swyddog mewn 1 neu 2 gerbyd heb farciau fydd yn parcio ar y Stryd Fawr ar foreau yn ystod yr wythnos.<br>2. Cynhelir gwyliadwriaeth rhwng 08.00 a 09.00 bob dydd neu nes bod Mr Davies yn cael ei weld yn gadael yr eiddo, pan fydd y wyliadwriaeth yn dod i ben.<br>3. Bydd y swyddogion sy'n cyflawni'r wyliadwriaeth yn cofnodi unrhyw arsylwadau ar ddyddiaduron gwyliadwriaeth ysgrifenedig ac ni fyddant yn defnyddio unrhyw gamerâu na theclynnau gwyliadwriaeth neu recordio eraill.<br>4. Ni fydd swyddogion yn dilyn y targed wedi iddo adael yr eiddo. |
| **4 Enwau, os ydynt yn hysbys, y sawl y cynhelir y wyliadwriaeth gyfeiriedig arnynt.** |
| • Enw: Mr A Davies<br>• Cyfeiriad:82 Stryd Fawr<br>• Dyddiad geni:<br>• Gwybodaeth arall yn ôl y galw: |
| **5 Esboniwch y wybodaeth sydd ei hangen o ganlyniad i'r wyliadwriaeth gyfeiriedig.** |

[1] Ar gyfer awdurdodau lleol: Dylid rhoi union deitl swydd y swyddog awdurdodi.

## ATODIAD 3 – FFUG GAIS

| **Cyfeirnod Unigryw** | |
|---|---|

1. A yw Mr Davies yn gadael yr eiddo targed i fynd i'w waith bob dydd
2. A yw ei gerbyd yn yr eiddo bob bore yn ystod yr wythnos

**6. Nodwch ar ba sail y mae angen y wyliadwriaeth gyfeiriedig o dan Adran 28(3) yr RIPA.** ***Dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol. Gofalwch eich bod yn gwybod ar ba rai o'r rhesymau hyn y mae gennych hawl i ddibynnu (OS 2010 Rhif 521*** *).*

**ATODIAD 3 – FFUG GAIS**

- Er mwyn atal neu ganfod troseddau neu atal anhrefn

**7. Esboniwch pam mae angen y wyliadwriaeth gyfeiriedig am y rhesymau rydych wedi'u nodi [**

**Paragraff 3.3 y Cod].**

Derbyniwyd gwybodaeth gan un o adrannau eraill y Cyngor fod Mr Davies yn byw yn y cyfeiriad targed gyda Mrs Jones. Os yw'r wybodaeth hon yn gywir mae'n debyg fod Mr Davies (ac efallai Mrs Jones) wedi cyflawni twyll ynghylch nifer o geisiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor, pob un ohonynt wedi arwain at dalu symiau sylweddol o arian i Mr Davies dros nifer o flynyddoedd

Hyd yn hyn cymerodd swyddogion ymchwilio y camau canlynol i gael y wybodaeth sydd ei hangen;

(a) Wedi chwilio trwy gofnodion y cyngor am wybodaeth yn awgrymu fod Mr Davies yn byw yn y cyfeiriad targed a bod Mr Davies a Mrs Jones yn cyd-fyw
(b) Wedi chwilio trwy gofnodion y DVLA sy'n dangos y cofrestrwyd cerbyd yn enw Mr Davies yn y cyfeiriad targed
(c) Wedi cynnal archwiliad credyd sy'n dangos fod Mr Davies wedi cael credyd ar y sail ei fod yn byw yn y cyfeiriad targed
(d) Wedi gwirio cofnodion priodasol, sy'n dangos y priododd Mr Davies a Mrs Jones yn 2012
(e) Mr Davies yw tad merch Mrs Jones, a aned yn 2014.

Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn ddigon i brofi hyd at y safon prawf troseddol fod Mr Davies yn byw yn y cyfeiriad targed. Heb ragor o dystiolaeth ei fod yn byw yn yr eiddo ni fydd yn bosib mynd â'r achos ymhellach yn ei flaen.

# ATODIAD 3 – FFUG GAIS

**8. Rhowch fanylion unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol bosib a pham na ellir osgoi'r ymyrraeth.**
**Disgrifiwch y rhagofalon y byddwch yn eu cymryd i gyfyngu ar yr ymyrraeth anuniongyrchol.**

| **Cyfeirnod Unigryw** | |
|---|---|

| |
|---|
| Bydd swyddogion sy'n cyflawni'r wyliadwriaeth yn cael eu cyfarwyddo i beidio cofnodi unrhyw beth yn y dyddiaduron gwyliadwriaeth nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredoedd Mr Davies. Bydd unrhyw gyfeiriadau at Mrs Jones a/neu ei merch yn cael eu cyfyngu i rai sy'n gysylltiedig â'u hymwneud â Mr Davies.<br><br>Ni ddylai swyddogion gofnodi gweithgarwch unrhyw bersonau eraill onid yw'n briodol gwneud hynny yn dystiolaeth y cyflawnwyd trosedd gan y person hwnnw/honno. |
| **9. Esboniwch pam fod y wyliadwriaeth gyfeiriedig yn gymesur i'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Sut allai fod ar wrthrych y wyliadwriaeth neu ar eraill? A pham mae'r ymyrraeth hon yn cael ei gwrthbwyso gan yr angen am wyliadwriaeth am resymau gweithrediadol neu a ellir cael y dystiolaeth trwy unrhyw ddulliau eraill** |
| Nid yw'r camau a gymerwyd hyd yn hyn a amlinellwyd ym mlwch 7 uchod yn darparu digon o dystiolaeth i allu mynd â'r ymchwiliad hwn i'w derfyn. Heb y wybodaeth ychwanegol y gobeithir ei chael trwy wyliadwriaeth, bydd rhaid rhoi'r gorau i'r ymchwiliad.<br>Bydd yr ymyrraeth ym mywyd teuluol Mr Davies yn fychan iawn. Dim ond gweithgarwch all ddigwydd yng ngŵydd y cyhoedd (h.y. Mr Davies yn gadael yr eiddo targed) fydd yn cael ei gofnodi. Ni wneir unrhyw wyliadwriaeth ar weithgarwch y tu fewn i'r eiddo. |
| **10. Gwybodaeth gyfrinachol** NODWCH Y TEBYGRWYDD O GAEL UNRHYW WYBODAETH GYFRINACHOL: |
| DIM |

## ATODIAD 3 – FFUG GAIS

| Cyfeirnod Unigryw | |
|---|---|

| 11. Manylion yr Ymgeisydd | | | |
|---|---|---|---|
| Enw (printiwch) | | Rhif Ffôn: | |
| Gradd/Safle | | Dyddiad | |
| Llofnod | | | |

**12. Datganiad y Swyddog Awdurdodi [Nodwch Pwy; Beth; Ble; Pryd; Pam a SUT– yn y blwch hwn a'r un canlynol. ]**

Yr wyf trwy hyn yn awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig a ddiffinnir fel a ganlyn: [*Pam mae angen y wyliadwriaeth, at bwy mae'r wyliadwriaeth yn cael ei chyfeirio, Ble a Phryd fydd yn digwydd, Pa weithgarwch/offer gwyliadwriaeth a gymeradwywyd, Sut fydd yn cael ei gyflawni?]*

**13.** **Esboniwch pam rydych yn credu fod angen y wyliadwriaeth gyfeiriedig [Paragraff 3.3].**

**Esboniwch pam rydych yn credu fod y wyliadwriaeth gyfeiriedig yn gymesur i'r hyn y ceisir ei gyflawni [Paragraffau 3.4 i 3.7].**

# ATODIAD 3 – FFUG GAIS

| Cyfeirnod Unigryw | |
|---|---|

| |
|---|
| |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14. (Awdurdodi Gwybodaeth Gyfrinachol.) Rhowch fanylion yn dangos y cydymffurfiwyd â pharagraffau 4.1 i 4.31 y Cod | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Dyddiad yr adolygiad cyntaf | | | | |
| Rhaglen ar gyfer adolygu'r awdurdodiad hwn: [Paragraff 3.23]. Ni ddylech ond llenwi'r blwch hwn os yw dyddiadau adolygiadau wedi'r adolygiad cyntaf yn hysbys. Os nad ydynt neu os nad yw'n briodol gosod dyddiadau adolygu ychwanegol gadewch yn wag. | | | | |
| | | | | |
| Enw (printiwch) | | Gradd / Safle | | |
| Gradd/Safle | | Dyddiad ac amser | | |
| Dyddiad ac amser dod i ben [ e.e.: caniatawyd yr awdurdodiad ar 1 Ebrill 2005 – daw i ben ar 30 Mehefin 2005, 23.59 ] | | | | |

**ATODIAD 3 – FFUG GAIS**

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Unigryw** | |